At Weinidogion Cymru,

**Dyletswyddau Adrodd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013**

Yn unol â’r dyletswyddau o dan adrannau 7 (3) a 10 (2) o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, gwelwch isod adroddiad blynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

| | |
|---|---|
| Y camau a gymerwyd i hyrwyddo teithiau llesol | - Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol Mapiau Llwybrau Presennol (MLlP) am 16 wythnos rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2015. Defnyddiwyd arolwg ar-lein a chynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid;<br><br>- Darparwyd hyfforddiant i gerddwyr Kerbcraft i 671 o ddisgyblion;<br><br>- Cyflwynwyd hyfforddiant beicio Safonau Cenedlaethol i 691 o ddisgyblion;<br><br>- Darparwyd sesiynau Teithiau Llesol ar gyfer yr ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n cymryd rhan yn rhaglen Teithiau Llesol Sustrans. Bydd y rhain yn cyfrannu i’r broses ymgysylltu â rhanddeiliaid fel rhan o'r gwaith o ddatblygu’r Mapiau Rhwydwaith Integredig;<br><br>- Gweithiwyd gyda Choleg Pen-y-bont ar Ogwr i’w cynorthwyo i sicrhau dyfarniad Safon Iechyd Corfforaethol Platinwm a pharatoi cynllun teithio wedi'i ddiweddaru ar gyfer campws Pen-y-bont ar Ogwr;<br><br>- Roedd Cynllun Beicio i'r Gwaith CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn agored i geisiadau gan staff rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2016 gyda 44 o gyfranogwyr newydd / blaenorol;<br><br>- Mae beiciau cronfa ar gael i staff ar gyfer teithiau sy'n gysylltiedig â gwaith;<br><br>- Paratowyd datganiadau i'r wasg i godi ymwybyddiaeth o’r llwybrau a'r cyfleusterau newydd a ddarparwyd yn 2015/16;<br><br>- Roedd ymgynghoriad naw wythnos ar Lwybrau Teithio Dysgwyr, a anfonwyd i bob ysgol yn y fwrdeistref sirol, yn cynnwys cwestiynau penodol ar deithio llesol; |

| | |
|---|---|
| | - Cynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid ym Mhorthcawl i hyrwyddo’r cynnig llwybrau teithio llesol oedd yn cael ei gyflwyno yn 2016-17 drwy Gronfa’r Cymunedau Arfordirol;<br><br>- Cynhaliwyd cyfarfodydd Cynlluniau Mynediad Cymunedol (CMC) gydag amrywiaeth o randdeiliaid (gan gynnwys grwpiau cymunedol a Chynghorau Tref/Cymuned) i ddatblygu Cynlluniau Mynediad Cymunedol er mwyn deall symudiadau teithio presennol ac yn y dyfodol i gefnogi ceisiadau posibl am arian yn y dyfodol;<br><br>- Cafwyd cyswllt parhaus â chydweithwyr o adrannau Cynllunio, Priffyrdd ac Addysg i’w hannog i hyrwyddo a darparu ar gyfer teithio llesol fel rhan o ddatblygiadau newydd;<br><br>- Rhoddwyd cyflwyniad Deddf Teithio Llesol i gydweithwyr yn yr adran gynllunio oedd yn codi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf a’i goblygiadau ar gyfer datblygiadau newydd;<br><br>- Rhoddwyd cyflwyniad mewn digwyddiad ar gyfer ymarferwyr Ysgolion Iach/Eco i hyrwyddo proses Mapiau Llwybrau Presennol y Ddeddf Teithio Llesol;<br><br>- Parhau’r gwaith partneriaeth gyda Chymdeithas Tai y Cymoedd i’r Arfordir i hyrwyddo cynnwys teithio llesol mewn uwchgynlluniau ystadau / gweithgareddau hybu;<br><br>- Gweithio mewn partneriaeth gydag Ecolegydd y Fwrdeistref Sirol i hyrwyddo teithio llesol a seilwaith gwyrdd mewn datblygiadau newydd a'r briffordd / cynlluniau eraill;<br><br>- Rhoddwyd cyflwyniad Cynllun Trafnidiaeth Lleol i Gynghorwyr lleol, oedd yn cynnwys cyfeiriad at gynigion teithio llesol a’r Ddeddf Teithio Llesol;<br><br>- Mae’r rhaglenni Hoff o Gerdded a Cherdded er mwyn Iechyd yn defnyddio llwybrau newydd lle bo modd a chaiff cyfranogwyr eu gwneud yn ymwybodol o'r llwybrau newydd a’u cyrchfannau;<br><br>- Cynhaliwyd sesiynau Crucial Crew gyda phwyslais ar Deithio Llesol. |

| | |
|---|---|
| Y camau a gymerwyd i sicrhau llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau a gwelliannau cysylltiedig | **<u>Cronfa Trafnidiaeth Leol</u>**<br>- Cwblhau Llwybr Rhwydwaith Teithio Llesol 2 – Llangrallo i Bencoed;<br><br>**<u>Metro</u>**<br>- Cwblhau Llwybr 885 Cam 1 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol rhwng Sarn a Phen-y-bont ar Ogwr i ymestyn y llwybr i ganol y dref a'r orsaf fysiau;<br><br>**<u>Llwybrau Diogel mewn Cymunedau</u>**<br>- Cwblhau'r adran oedd ar goll o lwybr 5 oddi ar y ffordd yn y Rhwydwaith Teithio Llesol rhwng Broadlands a Threlales;<br><br>*Darparodd cynlluniau'r Gronfa Trafnidiaeth Leol, y Metro a'r Llwybrau Diogel mewn Cymunedau gyda'i gilydd gyfanswm o 1.75 km o seilwaith teithio llesol ychwanegol.*<br><br>**<u>Cynllunio Seilwaith Cysylltiedig</u>**<br>- Mae'r seilwaith Teithio Llesol wedi'i ymestyn fel rhan o'r datblygiadau parhaus a gyflawnir drwy'r broses gynllunio e.e. Parc Derwen a Gogledd Corneli.<br><br>**<u>Astudiaethau/Adroddiadau</u>**<br>- Cwblhawyd astudiaeth ddichonoldeb Rhwydwaith Teithio Llesol (RhTLl) ar gyfer Pencoed. Mae'r astudiaeth yn defnyddio templedi archwilio'r Ddeddf Teithio Llesol fel sail ar gyfer nodi argymhellion ar gyfer gwelliannau posibl. |
| Y costau a achoswyd ar gyfer llwybrau teithio llesol a chyfleusterau newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau cysylltiedig a gyflawnwyd yn y flwyddyn ariannol lawn flaenorol | **<u>Cronfa Trafnidiaeth Leol</u>**<br>- Cwblhau Llwybr Rhwydwaith Teithio Llesol 2 – Llangrallo i Bencoed: £374,500<br>- Mapio teithio llesol: £15,250<br><br>**<u>Metro</u>**<br>- Cwblhau Llwybr 885 Cam 1 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol rhwng Sarn a Phen-y-bont ar Ogwr i ymestyn y llwybr i ganol y dref a'r orsaf fysiau: £278,500<br><br>**<u>Llwybrau Diogel mewn Cymunedau</u>**<br>- Cwblhau'r adran oedd ar goll o lwybr 5 oddi ar y ffordd yn y Rhwydwaith Teithio Llesol rhwng Broadlands a Threlales: £125,000<br><br>**<u>Diogelwch ar y Ffyrdd</u>**<br>- Kerbcraft: £43,166<br>- Hyfforddiant beicio: £22,250 |

| | |
|---|---|
| | **<u>Ariannwyd gan CBS Pen-y-bont ar Ogwr</u>**<br>- Astudiaeth Ddichonoldeb Rhwydwaith Teithio Llesol (RhTLl) ar gyfer Pencoed: £15,000 |

Yn ychwanegol at yr uchod (dewisol):

| | |
|---|---|
| Gwariant dangosol ar gyfer llwybrau teithio llesol a chyfleusterau newydd, a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau cysylltiedig, a ariannwyd yn gyfan gwbl neu'n rhannol gan drydydd parti. | - D/b |

Gwybodaeth Ychwanegol (dewisol)

| |
|---|
| Datblygodd y Cyngor ddull arloesol o gyflawni beicio i'r ysgol drwy gydweithio rhwng y Swyddog Diogelwch Ffyrdd a Swyddog Teithio Llesol Pen-y-bont ar Ogwr. Datblygwyd hyn i ddechrau er mwyn lleihau'r costau ond mae hefyd wedi cysylltu'r cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol o ddarparu hyfforddiant mewn beicio – sgil bwysig mewn bywyd – gyda theithio llesol a Dyletswydd Cyfleoedd Chwarae Digonol. |

Cadarnhaf y cyhoeddir yr adroddiad hwn yn unol â'r Cyfarwyddyd Darparu statudol.

Y Prif Weithredwr